CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 17eg MAWRTH 2026.

NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. Mrs L Roberts (Cadeiryddes) Cyng. R G Parry (Is-Gadeirydd) Cyng. Ms N Dafydd, J Evans, G Jones, J E Lewis, W R Parry, D T Roberts, R R Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Neb.

Diolchwyd yn galonus iawn i Cyng. W R Parry am glirio y blodau a oedd ar wasgar yn y Fynwent Gymunedol Bodffordd gan y Clerc.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng. Ms N Dafydd a R R Roberts (Neuadd Goffa)

CAEL COFNODION 17eg CHWEFROR 2026 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. R R Roberts eilo Cyng. R G Parry.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Parcio ym Modffordd.
Ar ol cael cyfarfod ar y safle gyda Mr Alun Roberts, Peiriannydd Grwp Rheoli Datblygu a Rheoli Traffig y Cyngor Sir. 26ain Chwefror 2026.
Derbyniwyd cynlluniau i ddangos yr hyn a gynigwyd gan y Cyngor Cymdeithas ynghylch a llinellau melyn ychwanegol ym Modffordd. Yn gwerthfawrogi os gall y Cyngor Cymdeithas gadarnhau`r cynigion a rheswm dros eu cynnig.
Pasiwyd trwy gynnig Cyng D T Roberts, eilio Cyng G Jones i dderbyn ac ymateb (Unfrydol)
Gwaelod Bodffordd (Groeslon Llangwyllog) Llinellau melyn ar y Gongl.
Fel cafwyd trafodaeth ar y safle. Mae yn hanfodol o bwysig fod lle i gar gael tynnu i mewn, gan yn gyrru ni lawr y pentref, pan mae dynesiad o Llangefni neu Llangwyllog. Yr un modd lle mae gwagle i dynnu i fewn pan fo ceir wedi parcio am Ty Capel Sardis a tramwy yn agosau o Llangwyllog. Nid ydyw y drych yn llawer o gymorth nol barn defnyddwyr y lon.
O`r Sgwar i`r A5 (Ochr Dde Disgwylfa, Islwyn, Bryngwyn) Llinell felyn.
Mae yma geir a faniau yn parcio (Pobl Ddiarth) yn amlaf nol preswylwyr Bodffordd. Mae ar ddeall fod gan y tai le yn y cefnau.
Gwelir gyda`r nos ar adegau parcio dwbl yma, felly mae y tramwy yn cael trafferth pasio (Mae seis y tractors yn aruthrol) Mae ceir yn parcio yr ochr arall er bod llinellau melyn yma yn barod. (Meddwl dim iddynt) Mae defnyddio mawr ar y mangre yma Loriau anferth o Chwarel Gwyndy yn mynd a dod o`r A5. Fel dywedwyd fod Fan y Cyngor yn parcio hefyd.
Trosffordd i Tegfan am Ty Tywyrch (Parhau llinellau melyn dwbl i fynnu)
Mae parcio yma gan bobol sydd yn byw dros ffordd, a lle ganddynt ei hunain o flaen ei tai. Fan fawr Openreach lle mae`r gweithiwr yn byw am gyfeiriad yr Ysgol. Mae fan arall yn ei pharcio, un gwaith (Perchennog yr Hen Bost) Mae ganddo ef ddigon o le, pe buasai yn symud y darnau ceir sydd o flaen ei le (Fel dweda pobl y pentref) Mae`r Ceir y dod o`r Garej yn cael hin anodd i ddod allan oherwydd y parcio. Bydd llinellau dwbl yma yn gwneud llif y traffig yn well - enwedig pan mae Loriau yn dod o bob pen. (Mae`n bosib na fydd y cyflymder yn llai) Mae yma or yrru nid oes llawer yn cadw i 20mya.
Ac mae damweiniau yma yn aml (tair yn ddiweddar) nid ydyw y Cyngor yn cael y wybodaeth. Ond gobeithio na fydd damwain farwol.


Ty Sardis
Ty Capel Sardis
36.8m
GP
Elan
Penrhos
House
Glanrhyd
Hendy Bach
Talcen Gwyn
Chauntry
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans AC0000825374. / Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey AC0000825374.

Bryngwyn
Islwyn
Disgwylfa
Treetops
Cartref
LB
43.0m
Capel
Sardis
Bryn Tirion
Derwen
Royal Oak
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans AC0000825374. / Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey AC0000825374.


B 5109
Ty Tywyrch
Y Wenallt
48.2m
High Street
Rhianfa
Bryn Maelog
Sisial y Coed
Awelon
Dolydd
Bryn Parc
Annedd
Tyn Coed
Gadlys
45.4m
Tegfan
Gerdon House
GP
Capel Sardis
Bryngwyn
Islwyn
Disgwylfa
Treetops
Cae'R Delyn
LB
Cartref
43.0m
Haulfryn
Scotland
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans AC0000825374. / Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey AC0000825374.

Meddwl hefyd am Stad newydd fydd yn cael ei adeiladu yn fuan. Haulfryn wedi cael caniatad.
Ac adeiladu yn digwydd ar hyn o bryd am gyfeiriad Ty Tywyrch (Sydd mewn man beryglus)
Mae gan y tai bach dros ffordd i Ty Twyrch le i barcio yn y cefn (pedwar ty) Rhoddwyd lle iddynt gan y diweddar Mr Iolo Owen.

Dywedodd Cyng. J E Lewis fod grantiau yn dod i`r Cynghorau Cymdeithas yn y dyfodol agos tuag at welliannau. Ac eto meddwl am y Lloches Bws sydd i`w symud pan fydd fyd Stad Haulfryn yn dechrau. Bydd rhaid cadw llygaid.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

2. FPL/2023/15. Cais llawn i godi tai fforddiadwy. Creu mynedfa newydd i gerbydau ac i gerddwyr ynghyd a chreu ffordd mewnol a gwaith cysylltiedig ar dir ger:-
Haulfryn, Scotland Road, Bodffordd.
Caniatad.
Derbyn gan y Cyngor.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Cymerdwyo cyllideb fydd yn cynnal gwasanaethau hanfodol.
Bydd cynnydd o 5.1% yn y Dreth Cyngor a defnyddio arian wrth gefn i gefnogi`r gwasanaethau sydd yn parhau pwysau. Band D ar yr Ynys yn golygu cynnyd blynyddol o £87.03 neu o gwmpas £1.67 yn wythnosol.
Derbyn gan y Cyngor dim sylw pellach.

4. Swyddog Prosiect Trafnidiaeth Cynaladwy a Charbon Isel - Sian Peters
Cewch : Dweud Eich Dweud Heddiw - Isle of Anglesey ATNM 2026 - Commonplace
Ymgynghoriad. Cyhoeddus Cychwynnol adolygu map rhwydwaith teithio llesol Môn 2026.
Gofynol i bob Awrdurdod Lleol trwy Gymru ddiweddaru ei rhwydwaith cerdded olwynol a beicio bob 5 mlynedd a chyflwyno map diwygiedig i`r Llywodraeth yng Nghymru ei cymeradwyo. Mae pedair wythnos hyd 26ain Mawrth 2026.
Y Cyngor yn ei weld fwy i unigolyn i`w ymateb.

5. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Gwneud Cynnydd i wella safonau a dyrannu mwy o dai yn lleol:
Gwella ansawdd ac effeithlonrwydd ynni ei stoc tai, cael ei dyrannu i`r bobl a chysylltiad cryd ar yr Ynys gan y Cyngor. Rheolaeth o 4,074 o gartrefi ar hyd yr Ynys. Y cyfran uchaf Caergybi (30%) Llangefni (14%) Safonnau Ansawdd Tai Cymru 2023 (SATC 2023) taith y Cyngor at fod yn Sero Net.
Y Cyngor yn dderbyniol o`r gwellhad.

6. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Ymgynghoriad 20ed Chwefror - 25ain Mawrth 2026.
Helpu i lunio cynllun datblygu lleol newydd Ynys Môn.
Adnabod materion a`r heriau allweddol. Rhannu y gallu y ganfod y drafft. Cyflwyniad o ddaunaw amcan drafft strategol Dewisiad trwy archwilio ar gyfer Tyfiant Tai a chyflogaeth a meddwl dros strategaethau gwag eraill.
Lein: www.ynysmon.llywcymru/ymgynghoriad-cdll-chwefror-2026
Derbyn gan y Cyngor gyda pwysedd i rhoi sylw i`r cynllun.

GOHEBIAETH (ARALL)

7. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin.
Y Cyngor yn derbyn ac yn gefnogol o Maniffesto Un Llais Cymru.
Mae pump cwestiwn.
Cytuno i fwrw ymlaen ag anogaeth adroddiad ymchwiliad y Senedd.
Nerthu Cymunedau (cryfach)
Gwahaniaethau Cyllido.
Cynyddu Arweinyddiaeth Lleol.
Addysgu Capasiti a cryfder.

RHODDION.

8. Gair o ddiolch gan Ysgol Gymuned Bodffordd. (Llywodraethwr)
Cadeirydd Einion Williams. am £500 tuag at diffibrilydd.

PLWYFOL.

9. Iona Stephen Williams.
Man Gwyrdd ger tai Cyngor 5 Bro Celyn, Llynfaes.
Mae y Cyng. Sirol Dylan Rees wedi cymryd y mater i fynnu, gobeithi`r cael toddiad.
Beth oedd y Cyngor Cymdeithas wedi ei ofyn oedd lefelu y domen bridd oedd wedi ei chodi gan preswylwyr un o`r tai a`i wneud yn ol yn wyrdd a neb i barcio arno. (Mrs I S Williams yn cytuno a hyn.

10. Cyfraniad i`r Neuadd Goffa Bodwrog.
Trwy gynnig Cyng. D T Roberts, eilio Cyng. J Evans pasiwyd i drosglwyddo £2,000 i Drysoryddes y Neuadd.
Yn anffodus nid ydyw y Fantolen dderbyniwyd yn un gywir (Crynodeb) sydd ddim yn dderbyniol.
Cafwyd ystyriaeth a dadlau dwfn, a penderfynwyd rhoi yr arian am ein bod wedi rhoi addewid. Ac yn ofn na allai y gwaith symud ymlaen heb y rhodd fel y dywedwyd yn y cyfarfod diwethaf Chwefror 2026. (Ysgrifenyddes a Ymddiriedolwr y Neuadd yn bresennol)
Mae y Cyngor wedi cadw at ei gair, ac mae yn hanfodol i Bwyllgor y Neuadd gadw at yr amod a rhoddwyd.
Mae blwyddyn y Neuadd yn dod i ben 31ain Mawrth 2026. Felly mae y Cyngor yn gofyn yn garedig am Fantolen Ariannol Gyfoesol. Wedi cael ei archwilio gan gorff neu unigolyn annibynnol. Y fantolen wedi ei arwyddo gan y Trysorydd a cydlofnodi gan y Cadeirydd.
I fod yn llaw y Cyngor erbyn 20ed Ebrill 2026, nid ydyw yr amser yn afresymol.
Mae yn orfodol i`r Cyngor anfon copi ymlaen gyda cyfrifon 2025/26 i`r Awdit allanol (Awdit Cymru Caerdydd).

11. Elan City. SID. Dyfais Cyfeirydd Cyflymder
Fflachiwr bob pen i bentrefi yn dangos cyflymder y tramwy. Cadw mewn golwg mae yn ddrud iawn i`w brynnu a`i osod.
Mae cwyn mawr yn pentref Llynfaes (40mya) o`r cyflymder.

12. Cysylltu a`r Cyngor Sir am gi peryg yn Bronheulog, Bodffordd. Mae rhai ei ofn, a dywedir gan eraill na ydyw yn beryg i frathu ond yn neidio ar geir ac yn rhoi cripiad i`r paent. Gweld be ellir ei wneud.

13. Mae polyn Trydan dros y ffordd i 8 Bronheulog, Bodffordd yn dal i fod yn broblemus. Pan fydd yn bwrw glaw yn drwm mae dwr yn llifo allan o`i waelod. Posibilrwydd ydyw fod y dwr yn dod i lawr yr allt o gopa Cae`r Delyn. Y Clerc i gysylltu.

14. Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd.
Cafwyd adroddiad a oedd yn gystylliedig a wardiau Cyngor Bodffordd. Derbyniwyd gan Y Cyngor gyda diolch.

15. Bydd arwydd Gwyndy yn cael ei osod yn y groeslon yn y dyddiau nesaf.

MATERION ARIANNOL.

16. Cyfrif Rhedegol. £26,805.79. (£236.63. Grant Claddu Plant, Cyngor Sir)

Arian Mynwent Gymunedol Bodffordd £10,946.63 rhan o`r uchod)

TALIADAU:

17. Clerc £500.55. Gweinyddu (3 mis) £234.52. Treth Incwm 4 (3 mis) £375.41. Neuadd Goffa Bodwrog (Ystafell) £198.00. Neuadd Goffa Bodwrog (Rhodd Atgyweirio) £2,000.00.

Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. R R Roberts eilio Cyng. J Evans.

D Owen (Clerc)